Cofnodion 44 Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf
Minutes of the 44th Annual General Meeting Bardsey Island Trust Ltd

# Ysgol Crud y Werin, Aberdaron 10.30am. 20.05.2023

PRESENNOL/PRESENT: Siân Stacey, Jacquie Hughes Jones, Philip Owen, Eryl Parry, Helen Wilcox, Dot Tyne, Joan James, Richard Farmer, Ann Owen, Ben Porter, Liliana Evans, Hilary Owen, Rhisiart Rhys, Steve Pollitt, Janice Brown, Ian Wright, Margaret Wright, Martyn Croydon, Dianne Charles, Veronica Hanson, Richard Arnold, Haf Meredydd.
Ar / on Zoom: Dilwyn Morgan, Sharon Roberts, Jenny Creed, Sarah Smalley, Sarah Purdon, Martin Richards, Geoff Gibbs, Julie Speechley, Alison Layland, Anna Christien
Hefyd/Also: Caroline Jones (Admin/Gweinyddu), Menna Jones (Rheolwr Datblygu / Development Manager), Iestyn Tyne (Cyfieithydd/Translator).
Ymddiheuriadau/Apologies: Yr Esgob / Bishop Andy John, Peter Lockyer, Rosy Berry, Margaret Dunn, Ann Vaughan, Robert Townsend, Anna Georgina Chitty, Susannah Robinson, Susan Blagden, David Owen, Mel Perry, Luned Meredith, Lona Williams.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Croeso ac ymddiheuriadau dros absenoldeb<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 10.30am diolchodd i bawb am fynychu ac i holl wirfoddolwyr a staff yr Ymddiriedolaeth am drefnu'r cyfarfod.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod. | Welcome and apologies for absence<br>The Chair welcomed everyone to the meeting at 10.30am thanking everyone for attending and the Trust's staff and volunteers for arranging the meeting.<br><br>Apologies were received as listed above. |
| 2 | Cofnodion y 43fed Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 21 Mai 2022.<br>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.<br>Materion yn codi - dim. | Minutes of the 43rd Annual General Meeting held on 21 May, 2022.<br>The minutes were accepted as a true record.<br>Matters arising – there were none. |
| 3 | Derbyn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol wedi eu Harchwilio ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31ain o Ragfyr 2022 – Cadeirydd<br><br>Derbyniwyd adroddiadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf a diolchwyd i Philip Owen am ei waith fel Trysorydd yn ei flwyddyn gyntaf. | Receive the Trustees' Report and Audited Financial Statements for the year ended 31st December 2022 – Chair<br><br>The reports and minutes of the last meeting were received, and Philip Owen was thanked for his work as Treasurer in this his first year. |
| 4 | Adroddiad y Cadeirydd<br>Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar weithgareddau a newyddion yr Ymddiriedolaeth dros y flwyddyn flaenorol.<br><br>Ymddiriedolwyr a staff: Diolchwyd i'r ymddiriedolwyr a oedd yn sefyll i lawr yn 2023, sef Rod Gritten, cyn gadeirydd a chadeirydd y Pwyllgor Gwyddonol, ac Eryl Parry, a oedd wedi bod o gymorth gyda nifer o brosiectau; mi fyddai Eryl Parry yn aros fel aelod o'r Pwyllgor Ysbrydolrwydd. Hefyd roedd tymor Elfed Gruffydd ac Andrew Guile wedi dod i ben a diolchwyd iddynt am eu cyfraniad i waith yr Ymddiriedolaeth.<br><br>Croesawyd wardeniaid llety newydd i Enlli eleni i helpu gyda'r gwaith ar yr ynys drwy'r tymor gwyliau. Roedd | Chair's Report<br>The Chair presented a report on the Trust's activities and news over the previous year.<br><br>Trustees and staff: Thanks were expressed to the trustees who had stood down in 2023. Rod Gritten, former Chair and Chair of the Scientific Committee; Eryl Parry, who had helped with several projects; Eryl Parry would remain as a member of the Spirituality Committee; Elfed Gruffydd and Andrew Guile's terms had also come to an end and were thanked for their contribution to the Trust's work.<br><br>New accommodation wardens were welcomed to Enlli this year to assist with the island work throughout the |

| | | |
|---|---|---|
| | Jack Galloway a Catrin Menai yn byw yn Enlli ac wedi setlo i mewn i'w gwaith yn dda erbyn hyn. | holiday season. Jack Galloway and Catrin Menai lived on Enlli and had now settled into their work well. |
| | Llongyfarchwyd Mari Huws ac Emyr Owen ar enedigaeth eu merch. | Mari Huws and Emyr Owen were congratulated on the birth of their daughter. |
| | Rhestrwyd uchafbwyntiau datblygu'r flwyddyn:<br>• Cyfarfodydd gyda gwleidyddion San Steffan a'r Senedd – a threfniant am drip i Enlli yn Awst.<br>• Capel – cais lwyddiannus i gronfa ariannol Pantyfedwen.<br>• Storws – AHNE (Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol) – cais am £30,000 – llwyddiannus.<br>• Cronfa Treftadaeth y Loteri – paratoi cais am £250,000 i'w gyflwyno ddiwedd Mai 2023.<br>• Datblygu a hybu perthnasau efo sefydliadau ar draws yr ardal. | Development highlights from the year were listed:<br>• Meetings with MP and the Senedd Member - and plans for a trip to Enlli in August.<br>• Chapel – successful application to Pantyfedwen's grant fund.<br>• Storws – AONB (Area of Outstanding Natural Beauty) – bid for £30,000 – successful.<br>• Heritage Lottery Fund – prepared an application for £250,000 to be submitted at the end of May 2023.<br>• Develop and promote relationships with organisations across the region. |
| | Adroddwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth i weld yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan 2023, yn bresennol ar stondinau ac yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau mewn pebyll ar y maes. | It was reported that the Trust would be at the National Eisteddfod in Boduan in 2023, present on stants, and taking part in a number of events within various stands. |
| | Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am waith adfer y Storws. Cafwyd arian AHF (*Architectural Heritage Fund, Transforming Heritage*) i wneud ymchwiliad a chynlluniau. Derbyniwyd arian AHNE Llŷn i wneud y gwaith adnewyddu. Disgwylir i'r gwaith yma cael ei wneud yn yr haf 2023 gan yr Original Roofing Company o Flaenau Ffestiniog. | An update was given on the restoration of the Storws. AHF (Architectural Heritage Fund, Transforming Heritage) funds had been received to carry out a survey and to create plans. Llŷn AONB funds had been received to carry out the renovation work. This work was expected to be carried out in the summer 2023 by the Original Roofing Company from Blaenau Ffestiniog. |
| | Roedd gryn dipyn o waith wedi cael ei wneud gan yr ymddiriedolwyr i gael cytundeb S16 newydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'r cytundeb S16 newydd yn berchen i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli ac mi fyddai cynllun cadwraeth newydd yn cael ei hysgrifennu yr un pryd. | A great deal of work has been done by the trustees to obtain a new S16 agreement with Natural Resources Wales. The new S16 agreement would be held by the Bardsey Island Trust and a new conservation plan would be written at the same time. |
| | Cyhoeddwyd bod Enlli wedi derbyn y dynodiad Noddfa Awyr Dywyll gan y NDA (*International Dark Sky Association).* Cafwyd sylw sylweddol yn y cyfryngau ledled y byd yn dilyn y cyhoeddiad yn ogystal â chysylltiadau gydag ysgolion lleol. Cafwyd digwyddiad lawnsio swyddogol yn Aberdaron yng nghwmni Derek Walker, Comisiynydd Cymru Cenedlaethau'r Dyfodol, Aled Hughes, BBC Radio Cymru a Dani Robertson o Brosiect Nos. Diolchwyd i bawb a oedd ynghlwm â'r cais a'r gwaith yn dilyn y cyhoeddiad. | It was announced that Enlli has received a Dark Sky Sanctuary designation from the NDA (International Dark Sky Association). There had been significant media attention around the world following the announcement, as well as links with local schools. An official launch event was held in Aberdaron in the company of Derek Walker, Welsh Commissioner for Future Generations, Aled Hughes, BBC Radio Cymru and Dani Robertson from Project Nos. Thanks were expressed to everyone who had been involved in the application and the work following the announcement. |
| | Cafwyd blwyddyn 2023 prysur yn nhai yr ynys eto fel yn y blynyddoedd blaenorol, ac adroddwyd ar rhai pytiau o'r holiadur ymwelwyd. Sef, bod 90% o'r rheiny a oedd | 2023 was a busy year in the island's houses again as in previous years. Some highlights from the guest questionnaire were provided. 90% of those who had |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi ymateb i'r holiadur wedi rhoi sgôr 5 seren i'w gwyliau yn Enlli. Roedd 97% ohonynt wedi ymweld â chaffi a siopau'r ynys, gyda 35% ohonynt wedi gwario dros £100 ar yr ynys.<br><br>Newyddion trist i'w gyhoeddi oedd marwolaeth Gwilym Roberts Cwrt a Dafydd Thomas, warden cyntaf yr Ymddiriedolaeth.<br><br>Diolch i bawb yng Nghwrt, teulu Evans ar yr ynys a Colin Evans perchennog y cwch. Diolchwyd hefyd i'r Wylfa Adar a Maes, yr aelodau am cefnogaeth a'r holl wirfoddolwyr a oedd wedi rhoi oriau o waith i'r Ymddiriedolaeth. .<br><br>Adroddwyd bod o ddeutu 450 aelodau o'r Ymddiriedolaeth erbyn hyn.<br><br>Llongyfarchodd Chris Arnold yr Ymddiriedolaeth am ei waith.<br><br>Estynnwyd diolch hefyd i'r Cadeirydd am ei gwaith. | responded to the questionnaire gave a 5-star rating to their holiday on Enlli. 97% of them had visited the island's cafe and shops, with 35% of them having spent over £100 on the island.<br><br>Sad news was announced over the death of Gwilym Roberts, Cwrt and Dafydd Thomas, the Trust's first warden.<br><br>Thanks were expressed to everyone at Cwrt, the Evans family on the island and Colin Evans the boatman. The Bird and Field Observatory and members were thanked for their support as well as all the volunteers who had given hours of work to the Trust.<br><br>It was reported that there were now approximately 450 members of the Trust.<br><br>Chris Arnold congratulated the Trust on its work.<br><br>Thanks were also extended to the Chair for her work. |
| 5 | Ethol Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor<br>Derbyniwyd yr enwebiadau isod:<br>• Dot Tyne<br>• Lona Williams<br>• Siân Stacey<br><br>Derbyniwyd yr uchod fel ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Ynys Enlli Cyf. .<br><br>Roedd yr Ymddiriedolaeth yn awyddus i recriwtio aelodau newydd gyda phrofiad hanes, y gyfraith ac ecoleg. Gofynnwyd i aelodau rhannu'r wybodaeth yma yn ehangach. | Election of Officers and Council Members<br>Nominations received below were accepted:<br>• Dot Tyne<br>• Lona Williams<br>• Siân Stacey<br><br>The above were accepted as trustees and directors of the Bardsey Island Trust Ltd<br><br>The Trust was eager to recruit new members with a background in history, law and ecology. Members were asked to share this information. |
| 6 | Penodi Gwyn Thomas a'r Cwmni i wneud archwiliad annibynnol o'r cyfrifon ar gyfer 2023<br>Cytunodd yr Ymddiriedolaeth i benodi Gwyn Thomas a'r Cwmni i wneud archwiliad annibynnol o'r cyfrifon ar gyfer 2023. | Appointment of Gwyn Thomas and Co to carry out an independent examination of the accounts for 2023<br>The Trust agreed to appoint Gwyn Thomas and Co to carry out an independent examination of the accounts for 2023. |
| 7 | Unrhyw fater arall<br>Dim materion wedi eu derbyn. | Any other business<br>There was no other business. |
| 8 | Dyddiad y CBC nesaf<br>18 Mai 2024 yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron.<br><br>Daeth y cyfarfod i ben am 11.00. | Date of next AGM<br>18 May 2024 at Ysgol Crud y Werin, Aberdaron.<br><br>The meeting concluded at 11.00. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn dilyn y materion swyddogol cafwyd sgwrs gan siaradwyr gwadd: Ben Porter am ddynodiad awyr dywyll Enlli a Dianne Charles, Cadeirydd Gwylfa Adar a Maes Enlli, a oedd yn dathlu 70 mlynedd ers ei sefydlu. | Following completion of official business talks were given by invited guests: Ben Porter on Bardsey's dark skies designation and Dianne Charles, Chair of the Bardsey Bird and Field Observatory, which is celebrating its 70th anniversary. |

Cofnodion wedi eu cymeradwyo gan y Cadeirydd/Minutes approved by the Chair

Dyddiad/Date: 03.03.2024

Arwyddwyd/Signed: *Jaquie Hughes-Jones*

Cofnodion wedi eu cymeradwyo/Minutes approved

Dyddiad/Date: ………………………………………….

Arwyddwyd/Signed: ………………………………….